



**National Independent
Safeguarding Board Wales**

**Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru**



Adroddiad Blynyddol 2018-19



Cynnwys

Cyflwyniad	4
Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol	5
Dyletswyddau a chyfrifoldebau	5
Gofynion yr Adroddiad Blynyddol	5
Aelodau	6
Cymorth a chynghor y Bwrdd Cenedlaethol i Fyrddau Diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol	7
Gwaith arall a gyflawnwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol, neu gan grwpiau atodol a sefydlwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol, a'r canlyniadau a gyflawnwyd	8
Adroddiad ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru	9
Argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella trefniadau	26

Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol 2018-2019 y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn ymdrin â chyfnod o bontio. Roedd y Bwrdd Cenedlaethol cychwynnol yn weithredol ers mis Ebrill 2016 a chwblhaodd ei dymor ym mis Chwefror 2019. Lluniodd adroddiad gwaddol a oedd yn bwrw golwg yn ôl ar ei dymor o dair blynedd er mwyn dangos sut yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac er mwyn awgrymu rhai llinynnau parhad a fyddai'n gymorth i'w olynwyr.

Dechreuodd yr aelodau newydd a benodwyd i'r Bwrdd Cenedlaethol ar eu gwaith ym mis Mai 2019. Felly, cafwyd cyfnod o sawl mis pan nad oedd y Bwrdd yn gweithredu, ac er bod y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn gallu bod yn faith, dylid gwneud pob ymdrech i osgoi sefyllfa debyg yn y dyfodol.

Yn yr un modd ag o'r blaen, mae'r aelodau newydd a benodwyd i'r Bwrdd yn dod o gefndiroedd amrywiol ac mae ganddynt lawer iawn o brofiad ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, y byd academiaidd, y trydydd sector ac fel Cynghorydd Sir. Rydym yn ffodus hefyd bod aelod o'r Bwrdd diwethaf wedi'i benodi am ail dymor, sydd wedi bod yn werthfawr tu hwnt o safbwynt sicrhau parhad a deall manylion y modd yr oedd ein rhagflaenwyr yn gweithio.

Yn yr un modd ag yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae'r broses o adrodd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru yn ystod 2018-2019 wedi canolbwyntio'n llwyr ar waith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Yn y dyfodol mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn bwriadu ystyried yn ehangach beth y mae 'trefniadau' yn ei olygu, er mwyn cynnwys yr holl gyrff a'r holl asiantaethau sydd â chyfrifoldebau a dyletswyddau yng nghyswllt diogelu. Er bod hynny'n uchelgeisiol, y gobaith yw y bydd yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o gyflwr gwaith diogelu yng Nghymru.

Ni ddylai neb fychanu'r her sydd ynghlwm wrth amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion rhag niwed ac atal niwed o'r fath, ym mhob ffurf a lle bynnag y gallai ddigwydd. Mae'n her y mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau'n ei hwynebu yn ddyddiol, ond os yw diogelu'n 'fater i bawb' mewn gwirionedd mae'n her y dylai pob un ohonom ei hwynebu bob dydd.

Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Dyletswyddau a chyfrifoldebau

Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol dair prif ddyletswydd a gaiff eu hegluro yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sef:

1. *Rhoi cymorth a chynghor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol*
2. *Cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru*
3. *Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (Adran 132 (2)).*

At hynny caiff wyth o gyfrifoldebau penodol y Bwrdd Cenedlaethol eu hegluro yn *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl*, sef y Canllawiau ynghylch Diogelu, dan Ran 7 y Ddeddf. Dyma'r cyfrifoldebau:

1. *Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn] gweithio ochr yn ochr â Byrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant i sicrhau gwelliannau cyson i bolisiau ac arferion diogelu ledled Cymru (par. 246)*
2. *Bydd [y Bwrdd Cenedlaethol] yn ymgysylltu â chadeiryddion y Byrddau Diogelu, ac arolygiaethau perthnasol...o leiaf ddwywaith y flwyddyn (par. 258)*
3. *Bydd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am agweddau polisi a thystiolaeth ar ddiogelu ac amddiffyn mewn rhannau eraill o'r DU*

a thu hwnt er mwyn dysgu o'r rheini a gwerthuso perfformiad cymharol Cymru (par. 261)

4. *Os bydd...yn nodi **thema o bryder...** gallai'r Bwrdd Cenedlaethol argymhell i Weinidogion Cymru y dylai'r mater gael ei drosglwyddo i'w archwilio gan Lywodraeth Cymru neu'r arolygiaeth berthnasol (par. 263)*
5. *Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio mecanweithiau i **ymgysylltu'n rheolaidd â phob math o grwpiau cyfeirio**, ymarferwyr ac unigolion arbenigol (par. 264)*
6. *Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **cyhoeddi ei adroddiadau blynyddol ei hun gan gynnwys unrhyw waith arfaethedig**. Bydd hefyd yn cynnal digwyddiad neu ddigwyddiadau ymgysylltu blynyddol (par. 265)*
7. *Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol ddyletswydd benodol o dan adran 133(2)(d) o'r Ddeddf i "**ymgyngori â'r rhai** y gallai trefniadau i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghymru effeithio arnynt". Bydd yn defnyddio'r ddyletswydd honno i wella ei ddealltwriaeth ac ymestyn ei brofiad o ddiogelu ac amddiffyn yng Nghymru (par. 266)*
8. *Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **ystyried yr hyn a ddysgwyr o weithgareddau 'ymgysylltu â defnyddwyr'** y Byrddau Diogelu (par. 266).*

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Caiff y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol ei disgrifio'n benodol yn Rheoliadau Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015.

Aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

2016 – Chwefror 2019



Simon Burch



Margaret Flynn [cadeirydd]



Ruth Henke



Jan Pickles



Rachel Shaw



Keith Towler

Mai 2019 i'r presennol



Jo Aubrey



Tessa Hodgson



Karen Minton



Jan Pickles



Jane Randall [cadeirydd]



Tony Young

Cymorth a chyngor y Bwrdd Cenedlaethol i Fyrddau Diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol

Bu aelodau blaenorol y Bwrdd Cenedlaethol yn gweithio ochr yn ochr â'r Byrddau Rhanbarthol drwy gydol y flwyddyn, gan gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a rhannu eu gwybodaeth lle'r oedd hynny'n briodol. Mae cyfraniad aelodau unigol o'r Bwrdd Cenedlaethol wedi'i groesawu gan y Byrddau Rhanbarthol ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn yr adborth a gafwyd.

'.....gwahanol arbenigedd proffesiynol gan gynnwys safbwynt cyfreithiol cryf, a oedd yn taflu goleuni newydd ar bethau... yn ddiwyd ac yn gefnogol wrth ymwneud â Byrddau Rhanbarthol.'

'Mae'r trosolwg a ddarparwyd trwy gael aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol ar y Bwrdd Rhanbarthol wedi bod yn gadarnhaol iawn.'

Mewn sefyllfaoedd lle'r oedd materion yn codi a oedd yn achosi anawsterau penodol i'r Byrddau Rhanbarthol, aeth y Bwrdd Cenedlaethol ati i gomisiynu darnau penodol o waith. Un enghraifft o faterion o'r fath oedd Addysg Ddewisol yn y Cartref a fydd yn destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2019.

Parhawyd i ganolbwyntio ar sut i reoli, ar lefel genedlaethol, yr hyn a ddysgir o'r holl adolygiadau diogelu a gaiff eu cynnal gan y Byrddau Rhanbarthol unigol. O ganlyniad, cafodd Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol ac Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd eu comisiynu gan y Bwrdd Cenedlaethol i lunio adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru.

Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad hwn yn 2019-2020.

Parhaodd y Bwrdd Cenedlaethol hefyd i gefnogi'r gwaith a ddechreuwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol i ddod o hyd i ddull technolegol o reoli'r hyn sydd i'w ddysgu o Adolygiadau, gan edrych i'r dyfodol ar sut y gallai Cymru ddefnyddio model "Gwybodaeth am Ddiogelu" i reoli'r holl adroddiadau y mae eu nifer yn cynyddu o hyd.

Yn ystod 2016, chwaraeodd Ruth Henke CF ran hollbwysig yn y gwaith o sicrhau bod ei chydweithwyr ar y Bwrdd Cenedlaethol yn deall hanfodion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddogfen 'Canllaw i Ymarferwyr: Egwyddorion Cyfreithiol Sylfaenol' a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018 yn mynd i wraidd y gyfraith sy'n ymwneud ag ymarfer diogelu yng Nghymru. Yr hyn y dylai'r Canllaw ei wneud yw galluogi ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth sylfaenol o rai o feysydd allweddol y gyfraith a allai effeithio ar eu hymarfer. Y gobaith yw y bydd hynny'n eu galluogi i fod yn fwy hyderus wrth wneud penderfyniadau anodd, yn eu gwneud yn effro i'r adegau pan fydd angen iddynt edrych ar bethau'n fanylach efallai, ac yn eu grymuso i wybod pryd y mae angen iddynt ofyn am gymorth. Yn anad dim, bwriedir i'r Canllaw alluogi ymarferwyr i ddeall yr egwyddorion cyfreithiol sylfaenol a ddylai fod yn sail i'w gweithredoedd a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd. Dosbarthodd y Bwrdd Cenedlaethol y Canllaw trwy'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac mae ar gael ar wefan y Bwrdd Cenedlaethol.

Gwaith arall a gyflawnwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol, neu gan grwpiau atodol a sefydlwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol, a'r canlyniadau a gyflawnwyd

Cyfrannodd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol at lunio'r elfen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gyfer cwricwlwm newydd 2022, a dderbyniwyd gan y Gweinidog ym mis Mai 2018 ac sydd wedi'i threialu mewn ysgolion ers hynny. Bwriad yr elfen hon o'r cwricwlwm yw rhoi adnodd allweddol i blant a phobl ifanc i'w cadw'n ddiogel rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae gan y ddarpariaeth hon, sydd o ansawdd da, y potensial i fod yn un elfen mewn cwricwlwm diogelu cyfannol a gaiff ei gyflwyno trwy ddull ysgol gyfan o weithredu, sy'n tynnu sylw pobl eraill at y ffaith nad y plentyn sy'n gyfrifol am ei gadw ei hun yn ddiogel.

Cyfrannodd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol at nifer o weithgoreu a grwpiau cynghori drwy gydol y flwyddyn:

- » Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar Lety Diogel
- » Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, Grŵp Cymru
- » Grŵp Diogelu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- » Cyngor y Gweithlu Addysg
- » Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ganllawiau ynghylch Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol ac Arferion Cyfyngol
- » Cadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan ynghylch effaith cam-drin domestig ar blant a phobl ifanc – lluniwyd fersiwn terfynol y Cyfarwyddyd ym mis Ionawr 2019
- » Y Bwrdd Cynghori ar Ddiogelu Cydestunol, Prifysgol Swydd Bedford.

Adroddiad ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru

Yn yr un modd ag yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad ar gyfer 2018-2019 wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar y trefniadau i ddiogelu'r plant a'r oedolion yng Nghymru sy'n gyfrifoldeb i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol, ac mae'n dibynnu ar y wybodaeth sydd yn Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Rhanbarthol.

Ceir chwe rhanbarth yng Nghymru. Yn 2018-2019 roeddent fel a ganlyn:

- » Caerdydd a'r Fro
- » Cwm Taf
- » Gwent
- » Canolbarth a Gorllewin Cymru
- » Gogledd Cymru
- » Bae'r Gorllewin.

Lluniodd pob un o'r chwe rhanbarth un Adroddiad Blynyddol i ymdrin â gwaith y Bwrdd Diogelu Plant a'r Bwrdd Diogelu Oedolion. Dim ond un rhanbarth sydd â Bwrdd Plant ac Oedolion sydd wedi'i integreiddio'n llawn. Mae gan y pum rhanbarth arall Fyrddau ar wahân o hyd ar gyfer plant ac oedolion, er eu bod yn cydweithio'n agos â'i gilydd, ac ym mhob rhanbarth maent yn cael cymorth gan Uned Fusnes a rennir.

Dim ond un rhanbarth oedd wedi methu â llunio ei adroddiad blynyddol o fewn yr amserlen statudol. Aeth Llywodraeth Cymru i'r afael â'r oedi gyda chadeiryddion y Byrddau Rhanbarthol perthnasol.

Mae paragraff 209 y Canllawiau a gyhoeddwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg', yn pennu'r hyn y dylid ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Roedd adroddiadau blynyddol pob un o'r rhanbarthau yn cynnwys y wybodaeth ofynnol.

Aelodaeth y Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Mae partneriaid statudol y Byrddau Diogelu yn cynnwys awdurdodau lleol pob rhanbarth, prif swyddogion yr heddlu, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Ymddiriedolaethau GIG sy'n darparu gwasanaethau yn yr ardal, a darparwyr gwasanaethau prawf a throeddau ieuentid. At hynny, mae'r Byrddau yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru, lleoliadau diogel yn y rhanbarth ac asiantaethau'r trydydd sector.

Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn cadeirio pob un o'r Byrddau yn 2018-2019.

Darparodd pob un o'r Byrddau Rhanbarthol restr o aelodau eu Byrddau. Darparodd un rhanbarth y wybodaeth hon ar sail rôl yn unig, ond gwnaeth y pum rhanbarth arall gynnwys enw'r unigolyn yn ogystal â'i swydd.

Darparodd tri rhanbarth ddata ynghylch presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ym mhob un o'r rhanbarthau hynny, gwelwyd tystiolaeth nad oedd cynrychiolwyr asiantaethau wedi mynychu'r un cyfarfod, neu'u bod wedi mynychu un cyfarfod yn unig trwy'r flwyddyn. Ni ddarparwyd esboniad na disgrifiad o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â hynny. Yn ogystal, nid aseswyd yr effaith y gallai hynny fod yn ei chael ar allu'r Bwrdd neu'i is-grwpiau i wneud eu gwaith.

Y camau y mae'r Byrddau Diogelu wedi'u cymryd i gyflawni canlyniadau penodol

Roedd pob rhanbarth wedi nodi blaenoriaethau'r Byrddau ar gyfer y flwyddyn. Ond roedd y meini prawf a ddefnyddiwyd i bennu'r blaenoriaethau hynny, a'r sylfaen dystiolaeth neu'r gwaith dysgu a ddefnyddiwyd i'w dewis, yn llai amlwg.

Roedd nifer y blaenoriaethau ar gyfer pob Bwrdd yn amrywio rhwng dwy a saith. Fodd bynnag, wrth edrych ar nifer y blaenoriaethau ar draws y Byrddau Plant a'r Byrddau Oedolion, roedd eu nifer yn amrywio rhwng pedair ac wyth.

Disgrifiwyd y gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau, ond ychydig o dystiolaeth a gyflwynwyd ynghylch pa mor effeithiol yr oedd y gweithgareddau hynny wedi bod neu ynghylch pa welliannau y mae angen eu gwneud wrth symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Canolbwyntiodd pob Bwrdd ar ei isadeiledd a'i drefniadau llywodraethu a chyfeiriodd nifer at ddatblygu fframweithiau rheoli perfformiad. Unwaith eto, ychydig o waith gwerthuso a wnaed i weld pa mor effeithiol yr oedd y rhain wedi bod a pha newidiadau yr oedd eu hangen yn y dyfodol, os oedd angen newidiadau o gwbl.

Y graddau y mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi gweithredu eu cynlluniau blynyddol diweddaraf, gyda manylion ynghylch y graddau y cafodd unrhyw welliannau arfaethedig penodol eu gweithredu

Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Diogelu gyhoeddi ei Gynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod erbyn 31 Mawrth fan bellaf.

Roedd yr Adroddiadau Blynyddol yn amrywio'n fawr o ran y graddau yr oeddent yn cyfeirio at y Cynllun Blynyddol. Roedd hynny'n amrywio o ddim cyfeiriadau o gwbl at y Cynllun i atgynhyrchu rhannau sylweddol ohono. Disgrifiodd pob Bwrdd lawer iawn o weithgarwch priodol i ddiogelu a gyflawnwyd drwy gydol y flwyddyn, ac o ran hynny roedd yn ymddangos eu bod yn gwneud cynnydd o safbwynt gweithredu eu cynlluniau ar gyfer pob blaenoriaeth. Dim ond dau ranbarth wnaeth ymgais i ddisgrifio'n benodol i ba raddau yr oedd unrhyw welliannau arfaethedig penodol wedi'u gweithredu.

Mae'n werth nodi bod 19 o'r 32 o flaenoriaethau a nodwyd yn 2018-2019 yr un fath â'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2017-2018. Felly, mae'n bwysig bod y Byrddau Rhanbarthol yn ystyried sut y gallant ddisgrifio'n well nid yn unig y gweithgareddau y maent wedi'u cyflawni mewn blwyddyn benodol ond hefyd i ba raddau y mae gwelliannau arfaethedig unigol wedi'u gweithredu, a ydynt yn cyflawni'r canlyniad a fwriadwyd ac a oedd unrhyw heriau neu rwystrau penodol yn eu hatal rhag eu gweithredu.

Y modd y mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi cydweithio â phobl neu gyrff eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amcanion y Byrddau

Disgrifiodd pob un o'r Byrddau y modd y maent wedi cydweithio â phobl a chyrrff eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â diogelu. Cafwyd tystiolaeth o lefel amrywiol iawn o gydweithio â sefydliadau a chyrrff rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd rhai o'r enghreifftiau allweddol yn cynnwys gweithio gyda'r canlynol:

- » Byrddau Rhanbarthol eraill, fel y Bwrdd Prosiect sy'n goruchwyllo'r gwaith o lunio Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- » Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, ar Adolygiadau Dynladdiad Domestig a datblygu strategaethau lleol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- » Y Swyddfa Gartref a Phrifysgol Caerdydd er mwyn treialu defnyddio methodoleg Adolygiadau Ymarfer Plant/Adolygiadau Ymarfer Oedolion yng nghyswllt Adolygiadau Dynladdiad Domestig
- » Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghyswllt dysgu o adolygiadau diogelu
- » Crwneriaid er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu
- » Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn dod o hyd i gyllid i ddatblygu eiriolaeth
- » Rhwydwaith Deddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid Cymru Gyfan
- » Y Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol.

Ni chyfeiriodd yr un o'r Byrddau at ymgysylltu neu gydweithio â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru neu Gomisiynydd Plant Cymru. Cyfeiriodd un Bwrdd at adroddiad gan y Comisiynydd Pobl Hŷn. Mae gan y ddau Gomisiynydd gyfrifoldebau allweddol ym maes gwarchod a hybu hawliau eu grwpiau poblogaeth penodol ac maent yn ymgysylltu'n helaeth â'u rhanddeiliaid. Mae diogelu ac atal camdriniaeth yn flaenoriaethau allweddol yn eu cynlluniau gwaith, felly mae'n ymddangos bod hwn yn ddiffyg a allai fod yn ddiffyg sylweddol o safbwynt llywio gwaith y Byrddau Rhanbarthol a dylanwadu ar flaenoriaethau diogelu cenedlaethol.

Unrhyw geisiadau y mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u gwneud i bobl gymwys dan adran 137(1) am wybodaeth benodedig, ac a gydymffurfiwyd â'r ceisiadau hynny

Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu gwneud gan unrhyw un o'r Byrddau Rhanbarthol yn 2018-2019. Mae hynny'n golygu mai dim ond dwywaith y mae'r pŵer hwn wedi'i ddefnyddio ers 2016.

Fodd bynnag, nododd un Bwrdd ei fod wedi gallu gofyn am wybodaeth gan ddefnyddio cylch gorchwyl y cytunwyd arno, a bod y ceisiadau hynny wedi cael eu cydnabod bob amser a bod y wybodaeth wedi'i darparu.

Cyflawniadau'r Byrddau Diogelu yn ystod y flwyddyn

Disgrifiodd pob un o'r rhanbarthau eu cyflawniadau mewn gwahanol ffyrdd yn eu hadroddiadau blynyddol. Disgrifiodd rhai eu holl gyflawniadau ynghyd â'r gwaith a oedd ar y gweill ganddynt yn rhan o naratif yr adroddiad, tra aeth eraill ati i dynnu sylw at gyflawniadau penodol o bwys neu ddisgrifio eu cyflawniadau allweddol mewn rhan benodol o'u hadroddiad.

Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Disgrifiodd Byrddau Caerdydd a'r Fro eu cyflawniadau ym mhob rhan o naratif eu hadroddiad:

- » Arweiniwyd yr adolygiad o Weithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion Cymru Gyfan.
- » Mae'r elfennau a rennir yn agendâu'r Byrddau wedi tyfu a datblygu.
- » Sicrhodd Diwrnod Datblygu a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2019 fod pob blaenoriaeth yn cael ei hasesu a bod unrhyw amcanion y mae angen sylw pellach arnynt yn cael eu dwyn ymlaen i gynllun blynyddol 2019-20.
- » Gweithiodd y Byrddau i lunio fframwaith perfformiad amlasiantaeth y bwriedir adrodd i'r Byrddau ar ei sail bob chwarter.
- » O ganlyniad i argymhelliad mewn Adolygiad Ymarfer Plant, cynhaliwyd hyfforddiant amlasiantaeth er mwyn i'r Bwrdd gael sicrwydd bod ymarferwyr yn deall perthnasedd Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod a'u bod yn ymwybodol o effaith hirdymor y profiadau hynny.
- » Sefydlwyd Grŵp Gweithredol Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod gan ganolbwyntio ar ddull amlasiantaeth o fynd i'r afael â'r broblem.
- » Darparodd pob asiantaeth sy'n aelod o'r Bwrdd Plant Rhanbarthol stori am ddefnyddiwr gwasanaeth i'r Bwrdd.
- » Comisiynwyd Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuentid Cenedlaethol Cymru i lunio adroddiad sy'n tynnu sylw at ddulliau o gael plant a phobl ifanc i ymwneud yn gadarnhaol â gwaith y Bwrdd.
- » Hyrwyddwyd gwaith y Bwrdd trwy ddatblygu'r wefan ymhellach.
- » Cynhaliodd y Bwrdd hyfforddiant amlasiantaeth a gyflwynwyd gan Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru ym mis Mawrth 2019.
- » Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol gyntaf y Bwrdd i blant a phobl ifanc.
- » Cynhaliwyd Cynhadledd Ddiogelu i Weithwyr Proffesiynol.
- » Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu Adolygiadau Ymarfer Plant/Adolygiadau Ymarfer Oedolion.
- » Cyhoeddwyd pump o Adolygiadau Ymarfer Plant.
- » Gwnaeth y Fforymau Gofal Cartref a Chartrefi Gofal gynnwys diogelu fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd fforymau darparwyr, a chytunwyd ar gynrychiolaeth ar y Bwrdd.
- » Cafodd gwaith dysgu o arolygiadau perthnasol gan Arolygiaeth Gofal Cymru o gartrefi gofal yn y rhanbarth ei rannu â'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion.
- » Gwnaed cynnydd o ran ymchwilio i wybodaeth ynghylch gwasanaethau eiriolaeth.

- » Mae Is-grŵp Hyfforddiant wedi creu cofrestr o'r holl hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd ac mae'r gofrestr ar gael yn hwylus ar wefan y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion.
- » Mae'r Byrddau wedi cael diweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd ynghylch cynllun gweithredu Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023 er mwyn cael trosolwg a sicrwydd.
- » Cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo Diogelu fel modd i ddathlu cyflawniadau unigol a chydweithredol ym maes diogelu.
- » Cynhaliwyd dwy sioe deithiol i godi ymwybyddiaeth ynghylch diogelwch ac atal troseddau.

Bwrdd Diogelu Cwm Taf

Tynnodd Bwrdd Diogelu Cwm Taf sylw at y prif gyflawniadau'n ymwneud â'i amcanion strategol yn ei adroddiad:

- » Rhaglen archwilio 2018-19 y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth.
- » Dim ond archwiliadau sy'n bodloni meini prawf atgyfeirio y cytunwyd arnynt y mae Grwpiau Sicrhau Ansawdd y Bwrdd yn eu cynnal, ac maent yn gwneud hynny gan ddefnyddio offer wedi'u safoni.
- » Heddlu De Cymru wedi hwyluso hyfforddiant ynghylch Llinellau Sirol.
- » Cynhaliwyd prosiect graffiti, a oedd yn cynnwys pobl ifanc, er mwyn ymgysylltu â nhw. Roedd y digwyddiad yn ymdrin â graffiti hiliol a graffiti'n ymwneud â throseddau casineb, a chafodd dyluniad ei greu gan bobl ifanc leol.
- » Cwblhawyd Dyfarniad Hyrwyddwyr Iechyd a oedd yn cynnwys 6 o bobl ifanc. Cafodd y cwrs ei noddi gan y Gwasanaeth Partneriaethau Alcohol Cymunedol. Hwn yw'r unig Ddyfarniad Iechyd sydd wedi'i gwblhau yng Nghymru hyd yma dan nawdd Partneriaeth Alcohol Gymunedol, a bydd y bobl ifanc yn cael eu gwahodd i gynhadledd ar gyfer y DU gyfan.
- » Rhannwyd e-fwletin yr haf â phob un o'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio i asiantaethau partner y Bwrdd.
- » Datblygodd Adran Gwasanaethau Plant yn y rhanbarth gronfa ddata sy'n cofnodi safbwyntiau rhieni/gofalwyr a safbwyntiau plant unigol wedi i achos gael ei gau.

Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gwnaeth Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru gynnwys adran benodol yn eu hadroddiad i sôn am gyflawniadau'r Byrddau drwy gydol y flwyddyn:

- » Cwblhau a chyhoeddi strategaethau a pholisïau rhanbarthol
 - Dogfen Trothwyon Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion
 - Strategaeth Hyfforddiant Canolbarth a Gorllewin Cymru
 - Strategaeth Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Cynllun Cyflawni 5 mlynedd.
- » Datblygu Agenda Ddiogelu Integredig Lawn ar gyfer Pob Oedran.
- » Diwrnod Datblygu i'r Bwrdd Gweithredol.
- » Cyhoeddi Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno.
- » Cydweithio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer yr Wythnos Genedlaethol Diogelu.
- » Cynhadledd Ranbarthol, 'Rhoi Llais a Rheolaeth wrth Wraidd Ymarfer Diogelu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru'.
- » Sesiynau dysgu dros ginio wedi'u cynnal drwy gydol yr Wythnos Ddiogelu ym Mhowys, gyda phwyslais ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant.
- » Lansio hyfforddiant ar-lein yn Sir Benfro ynghylch Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad / Atal Hunanladdiad.
- » Sesiwn diogelu ar gyfer pobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn Sir Benfro, wedi'i gynnal gan y Diogelwyr Iau mewn cydweithrediad â Fforwm Ieuenctid Young Voices for Choices.
- » Cynhaliwyd digwyddiad adeiladu tîm rhwng Diogelwyr Sir Benfro a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.
- » Cynhaliwyd prosiect Plant mewn Angen i godi ymwybyddiaeth ynghylch y peryglon sy'n gysylltiedig â phobl sy'n meithrin perthynas amhriodol â phlant.
- » Cynhaliwyd cinio pontio'r cenedlaethau cyn cynnal nifer o sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn canolfannau ar draws Ceredigion.
- » Defnyddio mewnwyd Powys a chyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth am gamfanteisio troseddol.
- » Cynhaliwyd cyfres o sesiynau cynghori ar draws Ceredigion a oedd yn ymwneud â chamfanteisio ariannol, er mwyn cydnabod yr wythnos 'Gadewch i ni Drafod Arian' a oedd yn cael ei chynnal yr un pryd.
- » Cynhaliwyd ystod o ddigwyddiadau mewn ysbytai yn y rhanbarth er mwyn rhoi gwybodaeth amrywiol i ymwelwyr am bynciau sy'n ymwneud â diogelu.
- » Heddlu Dyfed-Powys yn cyflwyno gwersi mewn ysgolion lleol ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant.
- » Gwneud gwaith allgymorth gydag amryw unigolion ac mewn cartrefi gofal, cyfleusterau hamdden a chwaraeon ac amryw ganolfannau eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch ystod eang o faterion sy'n ymwneud â diogelu ac er mwyn cynnig arweiniad yn eu cylch.

Byrddau Diogelu Gwent

Gwnaeth Byrddau Diogelu Gwent gynnwys adran benodol yn eu hadroddiad blynyddol i sôn am 17 o gyflawniadau allweddol neu 'straeon newyddion da' yr oedd y Byrddau'n teimlo eu bod yn dangos ehangder eu gwaith dros y flwyddyn a aeth heibio:

1. Mae sefydlu strwythur newydd ar gyfer is-grwpiau'r Byrddau wedi arwain at fframwaith mwy deinamig a syml gyda llai o ddyblygu.
2. Paratowyd cynnwys terfynol ar gyfer gwefan Diogelu Gwent sydd newydd gael ei datblygu.
3. Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu i aelodau Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan yn ystod hydref 2018.
4. Yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu, datblygodd a dosbarthodd y rhanbarth gyfres o ddogfennau gwybodaeth i ymarferwyr amlasiantaeth a oedd yn ymwneud â chamfanteisio, sef y thema y cytunwyd arni'n genedlaethol. Bu'r rhanbarth hefyd yn cydweithio â'r heddlu, cydweithwyr yn y trydydd sector a phartneriaid eraill i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau lleol amlasiantaeth i godi ymwybyddiaeth ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Llinellau Sirol a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan ddefnyddio astudiaethau achos goroeswyr.
5. Gweithiwyd gyda phartneriaid i lunio cynllun strategol y Byrddau, a sicraodd hynny yn ei dro bod y partneriaid yn cael eu cynnwys yn y gwaith o lunio'r cynllun ar gyfer ardal Gwent a'r strategaeth ranbarthol ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
6. Rhannwyd yr hyn a ddysgwyd yn sgîl un adolygiad ymarfer plant a gwblhawyd.
7. Gwnaethpwyd defnydd mwy helaeth ac effeithiol o'r Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth, lle nodir yr hyn y mae angen i grwpiau ymarferwyr ei ddysgu, ar ôl rhoi prawf ar amrywiaeth o ddulliau gwahanol.
8. Cyflwynwyd sesiynau briffio 7 munud, i'w cwblhau gan y sawl sy'n adolygu Adolygiadau Ymarfer Plant neu Oedolion, fel adnodd hanfodol er mwyn rhannu'n effeithiol yr hyn y mae angen ei ddysgu ac er mwyn annog pobl i fyfyrion yn ei gylch.
9. Awdurdod Lleol yn rhanbarth y Bwrdd oedd un o'r rhai cyntaf yng Nghymru i wneud cais llwyddiannus am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Rhoddodd hynny brofiad i ni ei rannu, ac fe'n galluogodd i nodi'r angen i ddatblygu canllawiau rhanbarthol penodol er mwyn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol pan fyddant yn gwneud cais am y Gorchmynion hyn ac yn eu defnyddio yn y dyfodol.
10. Cwblhawyd prosiect peilot i symleiddio'r broses ar gyfer Adolygiadau Dynladdiad Domestig ar draws Gwent.
11. Cynhaliwyd cyfarfodydd y Rhwydwaith Diogelu Lleol a digwyddiadau bob chwe mis yn rhan o'r fforwm ymarferwyr.
12. Mae cyflwyno Pynciau Llosg ar lefel y Bwrdd a'r Rhwydwaith Lleol wedi galluogi'r aelodau i fynegi pryderon ynghylch diogelu ar amryw lefelau.
13. Parhawyd i weithio ar brosiect uchelgeisiol i ddatblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar y cyd, sy'n ymdrin â gwaith y ddau Fwrdd. Cwblhawyd cyfnod peilot i roi prawf ar y broses ar gyfer casglu gwybodaeth a data, cyn ymgynghori ag aelodau'r Bwrdd. Erbyn hyn mae'r Bwrdd wedi comisiynu astudiaeth gymharu er mwyn rhoi prawf ar y fethodoleg arfaethedig.
14. Parhawyd i gyflawni busnes craidd y ddau Fwrdd, a oedd yn cynnwys cynnal adolygiadau, cyflwyno pecynnau hyfforddiant cymeradwy'r Bwrdd, adolygu a diwygio protocolau a gweithdrefnau rhanbarthol, chwarae rhan gydlynus a gweithredol yn yr ymgynghoriad ynghylch y gweithdrefnau diogelu cenedlaethol sydd newydd gael eu datblygu, gweithio gyda'n cydweithwyr ledled Cymru a chael cyngor gan ymarferwyr rheng flaen, defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd.

15. Ddiwedd 2018/2019, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y ddau Fwrdd ar y cyd lle cafodd eitemau a oedd yn berthnasol i Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan eu hystyried ynghyd â negeseuon allweddol a oedd yn berthnasol i aelodau'r ddau Fwrdd.

16. Hybu'r defnydd a wneir o gyfarfodydd amlasiantaeth ynghylch Camfanteisio Rhywiol fel ymateb amlasiantaeth da i'r holl gamau gweithredu a nodwyd yn eu cynllun strategol. Ers hydref 2018, mae'r cyfarfodydd hyn bellach yn cael eu hwyluso ar draws y rhanbarth cyfan.

17. Grŵp Cyflawni'r Byrddau yn cydlynu'r gwaith o gyflwyno rhaglen hyfforddiant amlasiantaeth o safon.

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Gwnaeth Bwrdd Gogledd Cymru gynnwys adran benodol yn ei adroddiad blynyddol i sôn am gyflawniadau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn flaenorol:

- » Cafodd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ganmoliaeth uchel yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru, yn y categori "Dulliau Gweithredu Effeithiol yng nghyswllt Ymarfer Diogelu", am ei waith yn ymwneud â hunanesgeuluso.
- » Datblygu taflenni ynghylch hunanesgeuluso ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.
- » Cynhadledd ranbarthol ar hunanesgeuluso. Rhoddwyd cyflwyniad gan yr Athro Michael Preston Shoot.
- » Lansiodd "Protocol Herbert" mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru, sef menter sy'n annog gofalyr/staff gofal preswyl i grynhoi gwybodaeth ddefnyddiol y gellid ei defnyddio pe bai person agored i niwed yn mynd ar goll.
- » Sefydlwyd y digwyddiadau Parhad Ymarfer mewn partneriaeth â'r Cynghorydd Rhanbarthol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

- » Yn ystod Diwrnod Datblygu Busnes y Bwrdd, cwblhawyd y pecyn cymorth hunanesesu a ddatblygwyd gan Practice Solutions.
- » Mewn cydweithrediad â Grwpiau Cyflawni Lleol, bu Uned Fusnes y Bwrdd yn cydlynu ac yn cefnogi rhaglen ranbarthol o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn rhan o'r Wythnos Genedlaethol Diogelu.
- » Datblygodd y Cydlynnydd Busnes gyfres o "'daflenni ffeithiau'" am y gwahanol fathau o gamfanteisio.
- » Roedd cynhadledd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn ystod yr Wythnos Ddiogelu yn cynnwys cyflwyniadau ar y canlynol: Llinellau Sirol · Caethwasiaeth fodern · Camfanteisio'n rhywiol ar blant · Priodas dan orfod
- » Cafodd y Bwrdd gyflwyniad pwerus hefyd gan ddiodefwyr rheolaeth drwy orfodaeth a thrais domestig.
- » Lansiodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ei fideo diogelu, Gweld Rhywbeth / Dweud Rhywbeth.

Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin

Disgrifiodd Bwrdd Bae'r Gorllewin ei gyflawniadau ym mhob rhan o naratif ei adroddiad ac yng ngholofn 'Statws ym mis Mawrth' ei Gynllun Blynyddol:

- » Crëwyd cysylltiadau â'r fforwm masnachu pobl, sy'n darparu data i'r Bwrdd bob chwe mis.
- » Darparwyd hyfforddiant i ymatebwyr cyntaf ynghylch y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (Caethwasiaeth Fodern).
- » Lluniwyd ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant y mae perygl i eraill gamfanteisio'n rhywiol arnynt.
- » Cysylltiadau ag Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn darparu data ynghylch cwynion mewn cartrefi gofal.
- » Mae polisi cyffredinol ynghylch camfanteisio'n cael ei ddatblygu, sy'n ymdrin â phlant ac oedolion.
- » Mae'r holl is-grwpiau plant ac oedolion wedi dod ynghyd, sy'n golygu bod modd croesfeithrin syniadau.
- » Canolbwyntiwyd ar hyfforddiant a datblygwyd pecyn hyfforddiant rhyngweithiol ar gyfer oedolion a phlant, sy'n ymdrin â Llinellau Sirol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol, masnachu pobl, caethwasiaeth fodern, a radicaleiddio a throseddau casineb.
- » Mae gwaith hyfforddi hyfforddwyr yn cael ei sefydlu er mwyn creu cronfa o bobl all gyflwyno'r hyfforddiant hwn ar draws Bae'r Gorllewin.

Y graddau y mae pob aelod o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y Byrddau

Roedd pob un o'r rhanbarthau yn cofnodi presenoldeb yr aelodau mewn cyfarfodydd fel tystiolaeth o'u cyfraniad i'r Bwrdd. Roedd tri rhanbarth wedi cynnwys adroddiadau gan asiantaethau partner ynghylch eu cyfraniadau penodol nhw gan gynnwys, mewn rhai enghreifftiau, flaenoriaethau'r asiantaeth unigol a'r modd y maent yn cysylltu'n benodol â blaenoriaethau'r Bwrdd.

Roedd anghysondebau amlwg, fodd bynnag, gan nad oedd holl bartneriaid y Bwrdd wedi darparu'r wybodaeth hon ac na chafwyd unrhyw esboniad i egluro pam. At hynny, roedd yn ymddangos bod rhai sefydliadau cenedlaethol yn cyfrannu adroddiadau mewn rhai rhanbarthau ond nid mewn rhanbarthau eraill.

Ychydig o dystiolaeth neu waith asesu a gyflwynwyd ynghylch sut yr oedd y cyfraniadau hyn wedi effeithio ar effeithiolrwydd y Bwrdd. Ychydig o dystiolaeth a welwyd hefyd i ddangos sut yr oedd y Byrddau yn dwyn asiantaethau unigol i gyfrif am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau diogelu. Mae rhai Byrddau wedi cyflwyno eitemau 'pynciau llosg' yn eu cyfarfodydd er mwyn galluogi partneriaid i rannu materion sy'n peri pryder arbennig, a nododd un rhanbarth fod adroddiadau arolygu asiantaethau'n cael eu rhannu mewn cyfarfodydd Bwrdd. Nid oeddent yn disgrifio canfyddiadau'r arolygiadau hyn, boed yn dda neu'n ddrwg, ac nid oeddent yn cynnig unrhyw sylwadau ynghylch a oedd y canfyddiadau wedi rhoi sicrwydd iddynt neu ynghylch a oeddent yn fodlon ag unrhyw gamau gweithredu a gynigiwyd er mwyn gwella.

Asesiad o sut y defnyddiodd y Bwrdd Diogelu ei adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i ganlyniadau

Roedd y rhan fwyaf o Fyrddau yn cydnabod nad oedd yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gefnogi gwaith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u cyfyngu i gyfraniadau ariannol yn unig gan asiantaethau partner statudol. At hynny, roeddent yn cydnabod bod yr aelodau'n cyfrannu cryn dipyn o'u hamser i gynorthwyo'r Byrddau a'u gwaith. Roedd hynny'n aml ar ben eu rolau proffesiynol penodol a'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Roedd natur amrywiol gwaith y Byrddau yn ei gwneud yn anodd mesur cyfraniad yr aelodau, ac nid oedd bob amser yn amlwg i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill. Roedd rhai o'r enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys rheoli a chyhoeddi Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, datblygu protocolau a pholisïau rhanbarthol, yn ogystal â phrosiectau a oedd yn gofyn am lawer iawn o fewnbwn, gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol.

Roedd y Byrddau i gyd yn defnyddio'r fformiwla gyllido genedlaethol i asesu a nodi cyfraniadau ariannol blynyddol gan asiantaethau partner statudol. Dim ond un rhanbarth a gyhoeddodd wybodaeth am gyfraniadau ariannol y partneriaid statudol yn ogystal â pha ganran o'r cyfanswm oedd y cyfraniadau hynny. Felly, nid yw'n bosibl asesu cyfraniad sefydliadau yn genedlaethol. Nid yw'n glir chwaith a oes gan ranbarthau danwariant ac a oes ganddynt weddill sy'n cael ei ddwyn ymlaen o'r naill flwyddyn i'r llall. Er mwyn bod yn dryloyw i'r cyhoedd, dylai'r Byrddau Rhanbarthol ystyried cyhoeddi eu cyfrifon ariannol yn rhan o'u Hadroddiadau Blynyddol.

Roedd cyfanswm y gwariant yn amrywio o £125,065 i £355,055, sy'n rhoi cyfanswm gwariant cenedlaethol o £1,309,117. Roedd cyfran fwyaf y gwariant ym mhob rhanbarth yn ymwneud â'r Unedau Busnes, ac roedd y costau'n amrywio o £81,166 i £288,655.

Roedd yna rai amrywiadau diddorol eraill mewn gwariant. Er enghraifft, nododd un rhanbarth ei fod yn gwario dros £1000 ar yswiriant indemniad, ond ni chafodd gwariant ar yswiriant o'r fath ei nodi gan unrhyw Fwrdd arall. Roedd tri rhanbarth wedi nodi costau cynnal adolygiadau ymarfer plant ac oedolion ac roedd y gwariant hwnnw'n amrywio o £2890 i £48,246 ar gyfer y flwyddyn, ond nid yw'n glir faint o adolygiadau a gynhaliwyd ym mhob achos.

Er bod y ffeithiau ynghylch incwm a gwariant wedi'u nodi, nid oedd yr adroddiadau'n cynnwys naratif ynghylch y rhesymeg ar gyfer yr incwm y gofynnwyd i asiantaethau amdano ac ynghylch y modd y penderfynwyd ar wariant yng nghyswllt cyflawni amcanion y Byrddau. Byddai hynny wedi bod yn arbennig o ddiddorol yn achos y Byrddau yr oedd eu hincwm yn 2018-2019 yn llai nag yr oedd yn 2017-2018.

Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y cyflawnodd y Bwrdd Diogelu ei swyddogaethau, fel y dangosir gan ddadansoddiad o achosion y mae wedi ymdrin â nhw, ac unrhyw newidiadau y mae wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad

Mae hynny'n cynnwys y gwersi a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer plant ac adolygiadau ymarfer oedolion a gynhaliwyd gan Fyrddau Diogelu ac o adolygiadau ac ymchwiliadau eraill.

Nid oedd pob Bwrdd yn disgrifio themâu penodol yn eu hadroddiadau, er eu bod yn adrodd bod y gwaith wedi'i wneud a bod themâu wedi'u nodi a'u trafod gan y Bwrdd. Dyma'r themâu a nodwyd yn yr adroddiadau:

Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant

- » Sesiynau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth i staff ym maes iechyd ynghylch anabledau dysgu ac anawsterau dysgu, a'u heffaith ar rianta
- » Systemau gwell i wella cyfathrebu rhwng meddygon teulu, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd
- » Datblygu a gweithredu Protocol Rhanbarthol ar gyfer Anafiadau Babanod nad ydynt yn gallu Cropian na Cherdded
- » Datblygu Polisi Rhanbarthol ynghylch Ymddygiad Peryglus
- » Codi ymwybyddiaeth o Weithdrefnau Ysgolion ynghylch Absenoldeb ar gyfer disgyblion blwyddyn 11.

Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion

- » Datblygu egwyddorion pontio amlasiantaeth
- » Pwysigrwydd Ansawdd Gofal i oedolion yn golygu bod y Bwrdd yn edrych yn fanwl ar ofal preswyl a gofal cartref i oedolion
- » Angen arweiniad ynghylch y broses o dderbyn pobl ar frys ac asesu risg
- » Hyfforddiant i Reolwyr Cartrefi Gofal ynghylch briwiau pwyso, dementia a chadw cofnodion
- » Gweithio gyda theuluoedd heriol – datblygu arweiniad a hyfforddiant amlasiantaeth i staff rheng flaen ynghylch technegau rheoli gwrthdaro
- » Goruchwyllo Taliadau Uniongyrchol – sesiwn briffio 7 munud ar gael ar wefan y Bwrdd ynghylch Taliadau Uniongyrchol a diogelu.

Dysgu o adolygiadau neu ymchwiliadau eraill

- » Radicaleiddio person ifanc – wedi arwain at Adolygiad Ymarfer Plant sydd i'w gwblhau
- » Pwysigrwydd Diogelu Cyd-destunol fel ffrâm gyfeirio, yn enwedig yng nghyswllt Llinellau Sirol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- » Tystiolaeth gynyddol bod gwydnwch teuluoedd yn cael ei herio fwyfwy a bod hynny'n cyfrannu at wneud plant yn fwy agored i effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- » Mae pobl ifanc yn nodi bod iechyd meddwl yn brif bryder, a'r risgiau o ran diogelu sy'n gysylltiedig â hynny
- » Fforymau ymarferwyr amlasiantaeth wedi nodi problemau o ran cydymffurfio â phrosesau asesu cyn-geni a gweithio'n rhyngasiantaethol mewn cynadleddau achos. Arweiniodd hynny at archwiliad ffurfiol o'r meysydd ymarfer hyn
- » Effaith Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a chamfanteisio wedi arwain at lunio polisi cyffredinol a phhecyn hyfforddiant rhyngweithiol
- » Mae'n ymddangos bod nifer yr achosion o gwmpadau ymysg oedolion yn fwy amlwg fel problem, a rhoddir blaenoriaeth i'r mater hwn ym musnes y flwyddyn bresennol
- » Gofal cymdeithasol yn cael ailhysbysiadau gan yr heddlu ynghylch iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau
- » Arweiniodd adolygiad annibynnol i achos o gau cartref gofal at ddiweddarau'r polisi rhanbarthol ynghylch uwchgyfeirio pryderon
- » Nodi bylchau yn y modd yr oedd y cartrefi gofal hynny'n uwchgyfeirio pryderon – nid oedd yr adroddiad yn cynnwys cynllun clir ynghylch sut y bwriedir mynd i'r afael â'r mater.

Darparodd yr holl Fyrddau ddata ynghylch eu gweithgarwch diogelu ond ychydig o waith dadansoddi, os o gwbl, a wnaed ynghylch beth yr oedd hynny'n ei olygu, sut yr oedd yn rhoi sicrwydd i Fyrddau ynghylch ansawdd eu trefniadau diogelu neu sut yr oeddent yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth i lywio unrhyw gynlluniau gwella.

Pryd a sut y bachodd plant ac oedolion ar gyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu a sut y cyfrannodd hynny at helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ganlyniadau

Yn ei Adroddiad Blynyddol blaenorol, gwnaeth y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol sylwadau ar y petruster a nodwyd yn adroddiadau mwyafrif y Byrddau Rhanbarthol ynghylch cyfranogiad, gan ganolbwyntio ar y camau paratoi sy'n ofynnol er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Eleni, mae amrywiaeth mawr o hyd yn nulliau'r Byrddau o ymdrin â chyfranogiad, ond roedd pob rhanbarth namyn un yn ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid. Mewn un rhanbarth cafwyd llawer o enghreifftiau da o'r gwaith ym maes ymgysylltu a chyfranogiad a gyflawnwyd gan gynrychiolwyr asiantaethau yn eu sefydliadau eu hunain, ond ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o'r gwaith ym maes cyfranogiad a gyflawnwyd ar ran y Bwrdd.

Enghreifftiau o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- » Cafodd Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuentid Cenedlaethol Cymru ei gomisiynu i adrodd ynghylch dulliau o gael plant a phobl ifanc i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Bwrdd, ei benderfyniadau a'i ffrydiau gwaith.
- » Cynhaliwyd prosiect peilot i ddatblygu adborth o gyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses amddiffyn plant.
- » Mynychodd disgyblon o ysgolion uwchradd y rhanbarth y gynhadledd flynyddol i blant a phobl ifanc, a chafwyd cyflwyniad gan Lysgenhadon ysgolion ar gyfer Atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant.
- » Mae gan ddau Fwrdd Fyrddau Diogelu Iau/Plant ac adroddwyd ynghylch gweithgareddau'r Byrddau hynny a'r modd y ceisiwyd eu safbwyntiau. *"roedd yn braf cael sgwrs ddeallus ynghylch materion go iawn sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru"* (gan berson ifanc a oedd yn mynychu'r Bwrdd Gweithredol)
- » Aelodau'r Bwrdd yn mynychu Fforymau Ieuentid.
- » Ymgysylltu â theuluoedd sy'n rhan o Adolygiadau Ymarfer Plant.

Enghreifftiau o ymgysylltu ag oedolion

- » Cymryd rhan mewn Paneli Dinasyddion.
- » Ymgysylltu â'r sawl sydd wedi goroesi Cam-drin Domestig.
- » Ymgysylltu â theuluoedd sy'n rhan o Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

Nifer y Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion y gwnaed cais amdanynt yn ardal y Bwrdd Diogelu, faint o Orchmynion a wnaed a pha mor effeithiol yr oeddent

Mae Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn galluogi swyddog awdurdodedig, ac unrhyw berson arall a bennir yn y gorchymyn, i fynd i mewn i “fangre” i gael sgwrs breifat gydag oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod; canfod a yw'r person hwnnw'n gallu gwneud penderfyniadau o'i wirfodd; asesu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg; a gwneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd. Yn eu diffiniad o “fangre” mae'r canllawiau statudol yn cynnwys mangre ddomestig, cartref gofal preswyl, cartref nyrsio, ysbyty neu unrhyw adeilad, adeiledd, cartref symudol neu garafán arall y mae'r person yn byw ynddo/ynndi.

Mewn dau ranbarth, gwnaeth awdurdod lleol gais am un Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn 2018-2019. Mewn un ranbarth roedd yr achos yn ymwneud ag unigolyn â diagnosis o anhwylder iechyd meddwl. Nodwyd pryderon ynghylch lles emosiynol a chorfforol yr unigolyn ac ynghylch dylanwad partner a oedd o bosibl yn ceisio rheoli'r unigolyn.

Roedd y partner yn atal gwasanaethau rhag darparu cymorth i'r unigolyn. Oherwydd ymyrraeth y partner yn dilyn ymdrechion i gynnal Asesiad Iechyd Meddwl, penderfynodd swyddog awdurdodedig yr awdurdod lleol wneud cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion er mwyn i asiantaethau allu cyfarfod â'r unigolyn heb fod y partner yn bresennol.

Yn yr ail ranbarth, nodwyd bod awdurdod lleol wedi gwneud cais llwyddiannus am Orchymyn. Er na chafwyd sylw ynghylch effeithiolrwydd y Gorchymyn, mae'r Bwrdd yn nodi ei fod yn defnyddio'r profiad hwnnw i lywio a gwella ei brosesau rhanbarthol.

Unrhyw wybodaeth neu waith dysgu a ddbarthyd gan y Bwrdd Diogelu, neu unrhyw hyfforddiant y mae wedi'i argymhell neu'i ddarparu

Yn ystod 2018-2019 mae'r Byrddau Rhanbarthol wedi bod yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu Fframwaith Hyfforddiant Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Mae gan bob rhanbarth grŵp hyfforddiant sy'n goruchwyllo blaenoriaethau'r rhanbarth o ran hyfforddiant a'r gwaith o ddarparu hyfforddiant yn ei ardal. Cyfeiriodd dau Fwrdd yn benodol at ddefnyddio eu gwefan i rannu gwybodaeth a rhannu manylion ynghylch yr hyfforddiant sydd ar gael.

Mae un Bwrdd yn cynhyrchu e-fwletin a gwnaeth gynnwys dolenni cyswllt â gwaith a gyflawnwyd mewn manau eraill e.e. dolen gyswllt â chlip ar YouTube ynghylch plant a gyhuddwyd o swyngyfaredd, a dolen gyswllt â phrotocol Bwrdd Rhanbarthol arall ynghylch yr arfer o gronni pethau'n ormodol.

Roedd dau Fwrdd wedi cynhyrchu DVDs neu hyfforddiant rhyngweithiol ynghylch Cam-drin Domestig a Chamfanteisio, ac roedd un Bwrdd wedi datblygu safonau ar gyfer ei hyfforddwyr diogelu.

Disgrifiodd pob Bwrdd drefniadau helaeth ar gyfer hyfforddiant a ddarparwyd gan asiantaethau partner yn ogystal â'r Byrddau eu hunain. Yn ogystal â hyfforddiant ynghylch prosesau diogelu, rhoddwyd sylw i ystod eang o bynciau gan gynnwys y canlynol:

- » Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant
- » Radicaleiddio
- » Llinellau Sirol
- » Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- » Cam-drin Domestig a dysgu o Adolygiadau Dynladdiad Domestig
- » Hunanesgeuluso

- » Camfanteisio ar bobl
- » Cam-drin plant yn rhywiol
- » Camfanteisio rhywiol.

Mae nifer o'r pynciau hyn yn adlewyrchu thema'r Wythnos Ddiogelu ym mis Tachwedd 2018, sef camfanteisio. Cynhaliodd dau ranbarth gynadleddau proffesiynol yn ystod yr wythnos honno gyda siaradwyr a oedd yn ymdrin â'r materion hyn.

Sut y mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw gyfarwyddyd neu gyngor a roddwyd gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol

Adroddodd y Byrddau Rhanbarthol eu bod yn gweithredu unrhyw gyfarwyddyd a chynghor a roddir gan Lywodraeth Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol, heb roi unrhyw fanylion penodol.

Tynnir sylw at gyfraniad gweithredol i waith cenedlaethol e.e. datblygu'r gweithdrefnau diogelu cenedlaethol, a disgrifiodd un ranbarth drafodaeth barhaus ynghylch materion cenedlaethol gan nodi enghreifftiau megis gwasanaethau iechyd fforensig ar gyfer y sawl sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol, deddfwriaeth gryfach ynghylch plant sy'n cael addysg yn y cartref, a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gweithwyr presennol.

Nodwyd bod y ddau adroddiad canlynol a luniwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn ddefnyddiol:

- » Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau o Farwolaethau Oedolion yng Nghymru 2018
- » Canllaw i Ymarferwyr: Egwyddorion Cyfreithiol Sylfaenol 2018.

Materion eraill sy'n berthnasol i waith y Bwrdd Diogelu

Adroddodd y rhanbarthau ynghylch materion a oedd o bwys penodol iddynt hwy, er enghraifft tynnodd dau ranbarth sylw at effaith ad-drefnu sefydliadol a thynnodd un ranbarth sylw at effaith cyni ar yr asiantaethau partner sy'n rhan o'r Bwrdd. Fodd bynnag, roedd un thema'n gyffredin i'r rhan fwyaf o'r Byrddau, sef data.

Tynnwyd sylw at broblemau o ran diffyg data neu o ran casglu data. Roedd tri Bwrdd naill ai'n datblygu fframweithiau sicrhau ansawdd neu reoli perfformiad neu ar fin gweithredu fframweithiau o'r fath. Nid oes dim i awgrymu bod unrhyw gydweithio wedi bod rhwng y Byrddau yng nghyswllt y gwaith hwn na bod unrhyw ymgais wedi'i wneud i ffurfio safbwynt cenedlaethol.

Materion ychwanegol i adrodd yn eu cylch

Yn ogystal â nodi'r trefniadau diogelu a ddisgrifir yn Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Rhanbarthol, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol dynnu sylw hefyd at enghreifftiau o rannu adnoddau a rhannu gwybodaeth am waith dysgu rhwng Byrddau Diogelu o fewn ardal Bwrdd Diogelu neu rhwng Byrddau Diogelu ar draws Cymru.

Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Cymru Gyfan

Mae Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro wedi bod yn arwain y gwaith o ddatblygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer plant ac oedolion, sy'n weithdrefnau newydd, ac mae'r Byrddau Rhanbarthol wedi bod yn cymryd rhan yn y Bwrdd Prosiect gan oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r gweithdrefnau. Mae cynrychiolwyr unigol o'r Byrddau Rhanbarthol wedi bod yn cymryd rhan hefyd mewn grwpiau golygyddol sy'n adolygu penodau penodol, ac wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Canllawiau Ymarfer ar gyfer Plant ac ymgynghori yn eu cylch, gyda Llywodraeth Cymru.

Gwaith dysgu a rennir

Cyfarfu pob un o Reolwyr y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn rheolaidd i rannu arfer da, trafod meysydd i'w datblygu a nodi tueddiadau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg ym maes diogelu. Buont yn cydweithio hefyd i gynllunio'r Wythnos Genedlaethol Diogelu gan ddatblygu themâu rhanbarthol a rhannu arfer da.

Rhannwyd gwybodaeth yn rheolaidd am Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion er mwyn sicrhau bod y gwaith dysgu'n cael ei ledaenu ar draws y rhanbarthau.

Cytunodd Bwrdd Diogelu Cwm Taf ar ddull cydweithredol o gwblhau Adolygiad Dynladdiad Domestig gyda Bwrdd Diogelu Gwent. Mae hynny'n cynnwys treialu cwblhau'r Adolygiad Dynladdiad Domestig gan ddefnyddio dull gweithredu Adolygiad Ymarfer Oedolion. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau yn 2019/20.

Ym mis Medi 2018 mynychodd Rheolwr Bwrdd Rhanbarthol a Chadeirydd Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru weithdy a gynhaliwyd gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru, a buont yn cymryd rhan yn y gweithdy hwnnw a drefnwyd i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Hyfforddiant Gogledd Cymru.

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi cyflwyno "Sesiynau Briffio 7 munud" er mwyn cynorthwyo i ledaenu mor eang ag sy'n bosibl y gwaith dysgu sy'n deillio o adolygiadau achos, ac mae'r rhain wedi'u rhannu â Byrddau eraill.

Dangosodd y Byrddau dystiolaeth hefyd bod eu gwaith yn cyd-fynd â gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus e.e. mae hynny'n digwydd yng Ngwent yn achos dysgu o Adolygiadau Dynladdiad Domestig, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant ac yn achos cyllido'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth.

Sefydlu Fforwm Ymarferwyr y Rhwydwaith Diogelu Lleol sydd wedi darparu digwyddiadau codi ymwybyddiaeth ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Llinellau Sirol a'r berthynas â'r agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Adnoddau a rennir

Lluniodd pob rhanbarth un Adroddiad Blynyddol a oedd yn ymdrin â gwaith ei Fwrdd Oedolion a'i Fwrdd Plant. At hynny, mae gan bob un ohonynt drefniadau rheoli busnes a rennir ac a ariennir ar y cyd.

Mae'r holl Fyrddau yn gweithio ar drefniadau llywodraethu ar y cyd rhwng eu Bwrdd Oedolion a'u Bwrdd Plant, a chaiff hynny ei adlewyrchu yn strwythur eu his-grwpiau ac mewn enghreifftiau niferus o grwpiau plant ac oedolion ar y cyd. Mewn rhai rhanbarthau maent hefyd wedi cynnwys yr agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn gwella'r modd y caiff gwaith dysgu, ffocws ac ymdrech eu cydlynu.

Mae'r Rheolwyr Busnes wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar sicrhau cysondeb ar draws y Byrddau Diogelu Rhanbarthol o ran diwyg yr holl ddogfennau a gyhoeddir (e.e. Cynlluniau Blynyddol, Adroddiadau Blynyddol a Pholisïau a Gweithdrefnau).

Argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella trefniadau diogelu

Diogelu oedolion sy'n wynebu risg

O'n dadansoddiad ni o Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Rhanbarthol mae'n amlwg bod y trefniadau ar gyfer diogelu oedolion sy'n wynebu risg wedi'u datblygu i raddau llai na'r trefniadau ar gyfer diogelu plant. Mae'n amlwg hefyd nad oes data na gwybodaeth ddigonol ar gael am achosion o gam-drin pobl hŷn yng Nghymru. Caiff y farn hon ei hategu gan waith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a chaiff ei hamlygu yn ei hadroddiad Cyflwr y Genedl (Hydref 2019).

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Canllawiau Technegol y Fframwaith Perfformiad Gofal Cymdeithasol yn cynnwys gwybodaeth am achosion o gam-drin pobl hŷn, trwy gasglu data sydd wedi'i ddadansoddi yn ôl grŵp oedran.

O weithgarwch i berfformiad

Darparodd yr holl Fyrddau ddata ynghylch eu gweithgarwch diogelu ond ychydig o waith dadansoddi, os o gwbl, a wnaed ynghylch beth yr oedd hynny'n ei olygu, sut yr oedd yn rhoi sicrwydd i Fyrddau ynghylch ansawdd eu trefniadau diogelu neu sut yr oeddent yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth i lywio unrhyw gynlluniau gwella. Tynnwyd sylw at broblemau o ran diffyg data neu o ran casglu data.

Roedd tri Bwrdd naill ai'n datblygu fframweithiau sicrhau ansawdd neu reoli perfformiad neu ar fin gweithredu fframweithiau o'r fath. Nid oes dim i awgrymu bod unrhyw gydweithio wedi bod rhwng y Byrddau yng nghyswllt y gwaith hwn na bod unrhyw ymgais wedi'i wneud i ffurfio safbwynt cenedlaethol.

Y llynedd, roedd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi argymhell i Weinidogion "y dylai'r Byrddau Rhanbarthol, y Bwrdd Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru nodi pum mesur sy'n datgelu rhywbeth am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu, a chytuno ar y pum mesur hynny". Nid yw'r gwaith hwn wedi'i gyflawni hyd yma.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu Fframwaith Perfformiad ar gyfer Diogelu yng Nghymru.

Dysgu o Adolygiadau Diogelu

Caiff cryn dipyn o amser ac adnoddau eu buddsoddi bob blwyddyn mewn cynnal adolygiadau ymarfer yng Nghymru. Er hynny, nid oes tystiolaeth glir bod rhanbarthau'n dysgu oddi wrth ei gilydd mewn maes cyfrifoldeb sydd mor allweddol.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi rhoi cefnogaeth, gan gynnwys cefnogaeth ariannol, i dri darn ar wahân o waith gyda Phrifysgol Caerdydd ynghlân ag adolygiadau a gynhaliwyd hyd yn hyn, sef:

- » Dadansoddiad thematig o adolygiadau o farwolaethau oedolion yng Nghymru
- » Dadansoddiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru
- » Y Prosiect Gwybodaeth am Ddiogelu – creu storfa genedlaethol ar gyfer adolygiadau diogelu, a datblygu dysgu peirianyddol fel adnodd ar gyfer nodi themâu cyffredin o adolygiadau niferus ar draws Cymru, er mwyn gallu dadansoddi'n thematig a hybu gwaith dysgu a rennir yn genedlaethol.
- » Gan ddechrau ym mis Rhagfyr 2019, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â darn o waith er mwyn edrych ar brosesau adolygiadau diogelu yng Nghymru.

Argymhelliad 3

Yn rhan o'r adolygiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir ymgorffori'r storfa genedlaethol a dysgu peirianyddol mewn prosesau adolygu prif ffrwd, a sicrhau cyllid er mwyn gwneud yr adnodd yn un cynaliadwy ar gyfer y tymor hir.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad thematig o bob adolygiad diogelu ddwywaith y flwyddyn er mwyn nodi themâu a rhannu gwaith dysgu yn genedlaethol.



**National Independent
Safeguarding Board Wales**

**Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru**



Dysgwch fwy



www.bwrdddiogelu.cymru



@NISBwales



safeguardingwales

